

**GORCHYMYN SIR BENFRO (FFORDD DOSBARTH II, B4316 LIANUSYLLT I  
PENTLEPOIR) (TERFYN CYFLYMDER 40MYA) 2022**

---

**HYSBYSIR** drwy hyn fod Cyngor Sir Penfro yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adran 84 a rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf"). Effaith y Gorchymyn fydd gosod terfyn o 40mya drwy'r B4316 Llanusyllt i Pentlepoir fel y nodir yn yr Atodlen i'r gorchymyn hwn.

Mae'r cynigion yn cael eu hyrwyddo i gefnogi darparu llwybr troed i gerddwyr sy'n cysylltu cymuned Pentlepoir â'r Orsaf Reilffordd.

Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn drafft a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn ar-lein yn [www.pembrokeshire.gov.uk/TRO-public-notice](http://www.pembrokeshire.gov.uk/TRO-public-notice)

Os hoffech wrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, dylech anfon y rhesymau dros eich gwrthwynebiad naill ai drwy lenwi'r ffurflen adborth ar-lein, neu, yn ysgrifenedig at y rhai sydd wedi llofnodi isod erbyn 15fed diwrnod Ebrill 2022. Dyfynnwch: PENP-S/L

Wedi'i ddyddio y 25ain diwrnod hwn o Fawrth 2022.

Darren Thomas  
Pennaeth Seilwaith  
Cyngor Sir Penfro  
Neuadd y Sir  
Hwlfordd

**Atodlen  
Terfyn Cyflymder 40mya  
Hyd**

**Ffordd**

Ffordd Dosbarth II (B4316)


O bwynt 110 metr i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â'r A478 hyd at bwynt 60 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â ffordd fynediad yr orsaf.



# B4316 Pentlepoir - Proposed 40mph Speed Limit

Map produced on: 17 March 2022

Scale (A3 Print)  
1:2000



## **Datganiad o Reswm:**

Mae'r cynigion yn cael eu hyrwyddo i gefnogi darparu llwybr troed i gerddwyr sy'n cysylltu cymuned Pentlepoir â'r Orsaf Reilffordd. Bydd y terfyn cyflymder is yn:

- gwella diogelwch i gerddwyr,
- lleihau defnydd tir fydd yn ei dro yn lleihau cost,
- lleihau'r ymlediad gwelededd wrth y croesfannau a fydd yn ei dro yn arwain at lai o glirio coed/llystyfiant ac arbediad dilynol mewn cost ac amser a llai o effaith ar ecoleg.
- lleihau maint arwyddion yn ogystal â llai o amlygrwydd a phellter lleoli.

**GORCHYMYN SIR BENFRO (FFORDD DOSBARTH II, B4316 LIANUSYLLT I  
PENTLEPOIR) (TERFYN CYFLYMDER 40MYA) 2022**

Mae Cyngor Sir Penfro (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y Cyngor") drwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 84 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r ffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.
2. Enw'r Gorchymyn hwn yw "Gorchymyn Sir Penfro (Ffordd Dosbarth II B4316, Llanusyllt i Pentlepoir (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2022" a daw i rym ar y \*\* diwrnod o \*\*\*\* Dwy Fil a Dau ddeg dau.

**WEDI'I ROI** o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Penfro y diwrnod hwn \*\* diwrnod o \*\*\*\* Dwy fil a Dau Ddeg Dau.

**SÊL GYFFREDIN SIR BENFRO**

Mae'r **CYNGOR SIR** at hyn wedi'i osod ym mhresenoldeb:-

Llofnodwr Awdurdodedig:

**Ffordd**

Ffordd Dosbarth II (B4316)

**Atodlen  
Terfyn Cyflymder 40mya  
Hyd**

O bwynt 110 metr i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â'r A478 hyd at bwynt 60 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â ffordd fynediad yr orsaf.